

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Practis Deintyddol Cambria,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 12 Rhagfyr  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mawrth  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf? .....	21
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn rhoi barn wrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cambria, 6 Ffordd Caer, Pen-y-ffordd, Sir y Fflint, sydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 12 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin â pharch a bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd ganddo amrediad o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd y cyfarpar a'r ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn gyffredinol
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Roedd gan staff fynediad da at hyfforddiant a chefnogaeth gan dîm ehangach y practis

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnwys cyfeiriad at AGIC yn y daflen gwynion ac ar y wefan ac arddangos poster i Wella<sup>1</sup> yn y man aros
- Cynhyrchu cofnod dyddiad dod i ben ar gyfer offer dadebru
- Diweddarau hanesion meddygol cleifion bob dwy neu dair blynedd
- Gwella mesurau rheoli heintiau yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth a llunio cynllun gweithredu ar ôl yr archwiliad rheoli heintiau
- Cofnodi gwiriadau ar yr awtoclaf<sup>2</sup> a'r cywasgwr
- Trefnu hyfforddiant i staff enwebedig ar gymorth cyntaf a'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a gwneud y broses arfarnu staff yn ffurfiol

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

<sup>2</sup> Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Practis Deintyddol Cambria yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pen-y-ffordd, Sir y Fflint. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, therapydd, rheolwr practis a thair nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod staff y practis yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol ar gyfer cleifion.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a chwarteisi gan dîm y practis. Roedd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis.

Gwnaethom dderbyn wyth holiadur wedi'u cwblhau i gyd. Derbyniwyd cymysgedd dda o holiaduron gan gleifion gymharol newydd yn y practis (y rheini a oedd wedi bod yn gleifion yno am lai na dwy flynedd) a chleifion tymor hir yn y practis (y rheini a oedd wedi bod yn gleifion yno am fwy na dwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Hoffem ddweud cymaint o bleser yw hi i gael gwasanaeth sy'n darparu gwasanaeth, help a chyngor cyfeillgar ac effeithlon iawn. Diolch.”*

*“Mae'r holl staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar dros ben, a bob amser yn gwneud i chi deimlo'n bwysig fel claf. Maen nhw'n gwneud i chi deimlo'n gysurus wrth drafod a chwblhau triniaeth. Fel rhywun oedd ag ofn gweld deintydd, maen nhw wedi newid fy meddwl yn llwyr, a does gen i ddim ofn o gwbl bellach. Practis ffantastig ym mhob ffordd.”*

*“A dweud y gwir, mae'r practis hwn yn cael ei redeg yn berffaith. Alla i ddim awgrymu unrhyw beth i'w wella.”*

## **Cadw'n iach**

Gwelsom fod gan y practis arlwy o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Eu diben oedd hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd a'u hylendid ceg eu hunain.

Roedd nifer o arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos trwy gydol y practis, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o ran eiddo di-fwg.<sup>3</sup>

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## **Gofal ag urddas**

Sylwom fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol. Roedd y staff i weld yn dîm bychan, cyfeillgar a gwelsom ryngweithio cwrtais a moesgar â chleifion. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn credu'n ddieithriad eu bod wedi'u trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol gyda'r tîm deintyddol, o glyw'r cleifion eraill.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Dywedodd pob claf a oedd wedi cael triniaeth yn y practis yn yr holiaduron fod cost ei driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddo. Un claf yn unig a ddywedodd nad oedd yn deall sut roedd cost ei driniaeth yn cael ei chyfrifo.

---

<sup>3</sup> Cyflwynwyd deddfwriaeth i wahardd ysmegu mewn lleoedd cyhoeddus caeedig yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Roedd gwybodaeth am brisiau triniaeth cyffredinol ar gael ar ffurf arweinlyfr prisiau, a oedd ar gael fel llyfryn ac ar wefan y practis. Roedd y cleifion yn derbyn gwybodaeth glir am brisiau penodol ynghylch cynlluniau triniaeth unigol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gwybod faint allai eu triniaeth gostio.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Gwnaethom gadarnhau bod staff Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol.

### **Gofal amserol**

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi i'w hamserau apwyntiad a gwelsom bolisi gan y practis i gefnogi'r trefniant hwn.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ar du allan yr adeilad ac wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar neges y peiriant ateb. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur y byddai'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddo broblem ddeintyddol frys.

### **Gofal unigol**

#### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a chanfod eu bod wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a chafwyd caniatâd gan bob claf ynghylch triniaeth.

Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu trafod gyda'r cleifion.

## Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Roedd ramp ar gael i gynorthwyo cleifion â phroblemau symudedd i gyrraedd y brif fynedfa. Roedd dwy ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio gan y practis, a'r ddwy ohonynt ar y llawr daear.

Roedd toiledau ar gael i gleifion eu defnyddio ar y llawr daear, ac roedd mynediad da at y rhain i bobl ag anghenion symudedd.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder neu gŵyn wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac roedd wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gwnaethom argymhell y dylid arddangos poster i Gweithio i Wella yn y man aros er mwyn hysbysu cleifion o'r broses i'w dilyn pe bai nhw eisiau lleisio pryder ynghylch y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddyn nhw o dan drefniadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cawsom wybod bod y practis yn derbyn ychydig iawn o gwynion ac yr ymdrinnir â hwy wrth eu gwraidd lle y bo'n briodol. Roedd cofnod o gwynion yn cael ei gynnal a'i gadw. Roedd hyn yn galluogi staff i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin yn y cwynion roeddent yn eu derbyn.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym y byddai'n gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau y mae'n ei dderbyn yn y practis deintyddol pe bai angen.

Yn yr holiaduron, nododd cleifion fod y practis deintyddol yn gofyn eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yno - er enghraifft, trwy holiaduron cleifion.

Canfuom fod arolygon boddhad cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd blwch sylwadau gyda chardiau sylwadau yn y man aros i alluogi cleifion i fynegi eu barn ar y gwasanaeth.

**Yr hyn y mae angen ei wella** Dylid arddangos poster i Gweithio i Wella yn y man aros er mwyn hysbysu cleifion o'r broses i'w dilyn pe bai nhw eisiau lleisio pryder ynghylch y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddyn nhw o dan drefniadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd safle'r practis yn amlwg wedi ei gynnal mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol. Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhywfaint o waith i wella'r mesurau rheoli heintiau yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu dros y 12 mis diwethaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir.

Cynhaliwyd profion dyfeisiau cludadwy ar gyfarpar trydanol yn ystod y 12 mis diwethaf yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.<sup>4</sup>

---

<sup>4</sup> <http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm>

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cludo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchwyd gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel mewn ardal amgaaedig wrth aros i gael ei gasglu gan gwmni'r contractwr. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau â chwmni preifat.

Gwelsom fod fersiwn hŷn o'r poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos. Dylid disodli hwn â'r fersiwn mwy diweddar.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid disodli'r poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch â fersiwn mwy diweddar.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio bwrpasol. Fodd bynnag, nid oedd hon yn bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).<sup>5</sup> Canfuom y gallai lleoliad y ffan echdynnu arwain at aer halogedig yn cael ei dynnu o ochr budr yr ystafell ddadheintio i'r ochr glân. Yn ogystal, gwelsom fod offer glanhau yn cael eu storio yn yr ystafell ddadheintio. Canfuom hefyd nad oedd y bin gwastraff clinigol a agorwyd â throed yn yr ystafell ddadheintio'n gweithio.

Roedd yn amlwg bod yr offer a'r cabinetau yn yr ystafell ddadheintio mewn cyflwr da. Fodd bynnag, canfuom fod cabinetau uwchben y man budr, a oedd yn cynyddu'r risg o groes-heintio.

Roedd arwynebau gwaith yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio. Fodd bynnag, gwnaethom amlygu'r angen i selio ymylon lloriau'r ddwy ystafell driniaeth er mwyn galluogi glanhau effeithiol (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 6.48). Gwnaethom

---

<sup>5</sup> Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

hefyd bwysleisio'r angen i lanhau'r sgriniau teledu a oedd wedi'u gosod ar nenfydau'r ystafelloedd triniaeth yn rheolaidd er mwyn atal llwch rhag casglu a lleihau'r risg o groes-heintio (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 6.54).

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf a chywasgwr, a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynllun cynnal a chadw/archwilio ysgrifenedig ar gyfer yr awtoclaf a'r cywasgwr, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom hefyd argymhell fod prawf Helix neu Bowie Dick<sup>6</sup> yn cael ei gynnal ar bob cylchred amsugno awtoclaf, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 4.18. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai cofnodydd data gael ei osod ar yr awtoclaf.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu storio'n briodol i atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau yr oedd angen defnyddio neu ailbrosesu offer yn eu herbyn (glanhau a sterileiddio) wedi'u cofnodi yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau gan ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru,<sup>7</sup> er mwyn nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gweithgarwch monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynllun gweithredu wedi'i lunio i ddangos y camau oedd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd fel rhai oedd angen eu gwella.

---

<sup>6</sup> Datblygwyd prawf Helix a phrawf Bowie Dick i brofi pob proses sterileiddio mewn awtoclaf wedi'i lwytho, ac i wirio bod aer a nwyon eraill cywasgedig wedi'u gwaredu. Diben hyn yw gwirio treiddiad y gwahanol ddulliau sterileiddio wrth brosesu gwrthrychau gwag.

<sup>7</sup> Sefydliad yw Deoniaeth Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, gan ddarparu cyfleusterau addysgol ym maes meddygaeth a deintyddiaeth ac arwain ar ymchwil addysg.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid symud y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau llif awyr priodol.

Dylid storio offer glanhau mewn ardal anghlinigol.

Dylid trwsio neu amnewid y bin gwastraff clinigol a agorir â throed yn yr ystafell ddadheintio.

Dylid symud y cabinetau sydd uwchben y man budr yn yr ystafell ddadheintio i rywle arall.

Dylid selio ymylon lloriau'r ddwy ystafell driniaeth er mwyn galluogi glanhau effeithiol.

Dylid glanhau'r sgriniau teledu sydd wedi'u gosod ar nenfydau'r ystafelloedd triniaeth yn rheolaidd er mwyn atal llwch rhag casglu a lleihau'r risg o groesheintio.

Dylid llunio cynllun cynnal a chadw/archwilio ar gyfer yr awtoclaf a'r cywasgwr.

Dylid cynnal prawf Helix neu Bowie Dick ar gyfer pob cylchred amsugno awtoclaf.

Dylid ystyried ôl-osod cofnodydd data ar yr awtoclaf.

Dylid llunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd ar ôl yr archwiliad rheoli heintiau.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau argyfwng wedi'u gwirio'n rheolaidd a'u bod o fewn eu dyddiadau dod i ben. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod rhestr wirio'n cael ei llunio er mwyn i'r cyfarpar dadebru gael ei wirio'n rheolaidd, yn unol â safonau Cyngor Dadebru'r DU.

Llwyddom i weld cofnodion a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod hyfforddiant gloywi'n cael ei drefnu ar gyfer yr aelod o staff sydd wedi'i enwebu fel swyddog cymorth cyntaf y practis.



Canfuwyd nad oedd mygydau anadlu meintiau 1 a 2 yn y pecyn dadebru. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn, ac fe gymerodd ef gamau i archebu'r mygydau anadlu. Darparwyd copi inni o'r cadarnhad archebu fel tystiolaeth eu bod wedi'u harchebu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid llunio rhestr wirio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar dadebru'n cael ei wirio'n rheolaidd, yn unol â safonau Cyngor Dadebru'r DU.

Dylid trefnu hyfforddiant gloywi ar gyfer yr aelod o staff sydd wedi'i enwebu fel swyddog cymorth cyntaf y practis.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn nodi'n fanwl y camau i'w cymryd, a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw, petai gan y staff unrhyw bryderon diogelu.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom gofnodion hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio pob un ond un aelod o'r staff clinigol yn gyfredol a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif hyfforddiant yr un aelod o staff arall wedi dod i ben saith niwrnod cyn yr ymweliad arolygu. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn, ac fe gymerodd gamau ar unwaith i gadw lle i'r aelod staff hwnnw ar gwrs hyfforddi addas. Roedd cadarnhad o'r lle a gadwyd ar y cwrs ar gael i ni.

Er hwylustod i gyfeirio atynt, argymhellwn fod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel a'u cynnal a chadw yn cael eu storio yn y Ffeil Amddiffyn rhag Ymbelydredd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau, archwiliadau o'r ystafelloedd triniaeth a chael adborth cleifion er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar offer er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Roedd archwiliadau o adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn defnyddio dulliau hunanwerthuso fel archwiliadau ac asesiadau o anghenion hyfforddi i alluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio ac i ystyried gwelliannau i'r ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn meysydd amrywiol.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Cafodd cofnodion cleifion eu storio a'u cynnal yn electronig ac ar bapur. Gwelsom fod prosesau addas ar waith i sicrhau diogelwch gwybodaeth ar gyfrifiaduron.

### **Cadw cofnodion**

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol da iawn, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon dda er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gweld bod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch hanes meddygol; trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau a buddion; a sut y cafwyd caniatâd cleifion. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser wedi cael ei gynnal ac y rhoddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu. Gwnaethom argymhell bod ffurflenni iechyd meddygol newydd yn cael eu llenwi bob dwy i dair blynedd ar gyfer pob claf.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Dylid llenwi ffurflenni iechyd meddygol newydd bob dwy i dair blynedd ar gyfer pob claf.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y practis yn cael ei reoli gan reolwr y practis gyda chymorth y prif ddeintydd. Gwelsom fod arlwy o bolisiau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-aelodau o staff a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd Practis Deintyddol Cambria yn cael ei reoli gan reolwr y practis, gyda chefnogaeth y prif ddeintydd. Gwelsom fod y tîm yn drefnus ac yn rhagweithiol yn ei ymagwedd at reoli'r practis. Lle y gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd tîm y practis barodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm a digwyddiadau hyfforddiant mewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion manwl yn cael eu llunio.

Gwelsom fod amrediad o bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom fod proses recriwtio staff ffurfiol ar waith ac yr ymgwymerir â gwiriadau cefndir cyn i weithwyr ddechrau yn eu swyddi.

Roedd cofnodion yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob chwarter, a defnyddiwyd y rhain i drafod digwyddiadau arwyddocaol ac i nodi unrhyw anghenion dysgu.

Dywedwyd wrthym fod staff yn cael cymorth a goruchwyliaeth ddyddiol, ond bod cysondeb arfarniadau wedi llithro rhywfaint yn ddiweddar. Gwnaethom argymhell bod system arfarnu a chynorthwyo ffurfiol yn cael ei sefydlu, a chofnodion yn cael eu cadw o'r trafodaethau.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Roedd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol gan reoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd angen diweddarau tystysgrif gofrestru un deintydd i ddangos cyfeiriad presennol AGIC ac enw'r prif weithredwr.

Gwelsom hefyd wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol ar gyfer yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid rhoi system arfarnu a chynorthwyo ffurfiol ar waith, a chadw cofnodion o'r trafodaethau.

Rhaid cysylltu ag AGIC i gael tystysgrif gofrestru ddiwygiedig ar gyfer un o'r deintyddion.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Gwelsom gofnodion hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio pob un ond un aelod o'r staff clinigol yn gyfredol a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif hyfforddiant yr un aelod o staff arall wedi dod i ben saith niwrnod cyn yr ymweliad arolygu.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu bod mwy o berygl niwed i gleifion trwy beidio â defnyddio cyfarpar pelydr-X yn gywir.</p>	<p>Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn.</p>	<p>Gwnaeth rheolwr y practis gymryd camau ar unwaith i gadw lle i'r aelod staff hwnnw ar gwrs hyfforddi addas. Roedd cadarnhad o'r lle a gadwyd ar y cwrs ar gael i ni.</p>
<p>Canfuwyd nad oedd mygydau anadlu meintiau 1 a 2 yn y pecyn dadebru.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu bod mwy o berygl posibl y gallai cleifion gael eu niweidio mewn argyfwng gan nad oedd mygydau anadlu maint 0 ac 1 yn y pecyn dadebru.</p>	<p>Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn.</p>	<p>Archebwyd y mygydau anadlu gan reolwr y practis. Darparwyd copi inni o'r cadarnhad archebu fel tystiolaeth eu bod wedi'u harchebu.</p>





## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Cambria

**Dyddiad yr arolygiad:** 12 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella dybryd.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cambria**

**Dyddiad yr arolygiad: 12 Rhagfyr 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylid arddangos posteri Gweithio i Wella yn y man aros er mwyn hysbysu cleifion o'r broses i'w dilyn pe bai nhw eisiau lleisio pryder ynghylch y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddyn nhw o dan drefniadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 15 (1) (b)  6.3 Gwranddo a dysgu o adborth			
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Dylid disodli'r poster Cyfraith Iechyd a	Rheoliadau			

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Diogelwch â fersiwn mwy diweddar.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (2)  2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch			
Dylid symud y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau llif awyr priodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (d), (3) (b) a (4)  2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio  Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05			
Dylid storio offer glanhau mewn ardal anghlinigol.				
Dylid trwsio neu amnewid y bin gwastraff clinigol a agorir â throed yn yr ystafell ddadheintio.				
Dylid symud y cabinetau sydd uwchben y man budr yn yr ystafell ddadheintio i rywle arall.				
Dylid selio ymylon lloriau'r ddwy ystafell driniaeth er mwyn galluogi glanhau effeithiol.				

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid glanhau'r sgriniau teledu sydd wedi'u gosod ar nenfydau'r ystafelloedd triniaeth yn rheolaidd er mwyn atal llwch rhag casglu a lleihau'r risg o groes-heintio.				
Dylid llunio cynllun cynnal a chadw/archwilio ysgrifenedig ar gyfer yr awtoclaf a'r cywasgwr.				
Dylid cynnal prawf Helix neu Bowie Dick ar gyfer pob cylchred amsugno awtoclaf.				
Dylid ystyried ôl-osod cofnodydd data ar yr awtoclaf.				
Dylid llunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd ar ôl yr archwiliad rheoli heintiau.				
Dylid llunio rhestr wirio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar dadebru'n cael ei wirio'n rheolaidd, yn unol â safonau Cyngor Dadebru'r DU.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (2) a (3) (b)			
Dylid trefnu hyfforddiant gloywi ar gyfer yr aelod				

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
o staff sydd wedi'i enwebu fel swyddog cymorth cyntaf y practis.	2.6 Rheoli meddyginiaethau			
Dylid llenwi ffurflenni iechyd meddygol newydd bob dwy i dair blynedd ar gyfer pob claf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (b) 3.5 Cadw cofnodion Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.1			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylid rhoi system arfarnu a chynorthwyo ffurfiol ar waith, a chadw cofnodion o'r trafodaethau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad			
Rhaid cysylltu ag AGIC i gael tystysgrif gofrestru				

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddiwygiedig ar gyfer un o'r deintyddion.	14 (2) a Rheoliad 8 7.1 Y gweithlu			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**